O Montreal...
'LA FUGUE'

Stori afaelgar am fywyd ar y strydoedd gyda roc, rap a JS Bach yn fyw!

Ar Daith yng Nghymru rhwng 10 a 23 Tachwedd

Cyfuniad annhebygol ond gafaelgar o ddrama rymus, cerddoriaeth roc fyw, rap a JS Bach yn bwrw llwyfannau ar draws Cymru ym mis Tachwedd. Mae ***La Fugue*** yn adrodd hanes Ioan, bachgen yn ei arddegau sydd ar ffo. Mae'r dirgelwch yn datblygu pan fydd ei dad yn derbyn swp o'i eiddo gan yr heddlu. Mae pob eitem y mae'r tad yn ei archwilio'n dod yn fyw ac yn raddol mae hanes diflaniad ei fab yn cael ei ail-greu, gan sôn am y caledi a'r cariad y mae'n dod ar eu traws ar y strydoedd.

Mae Creu Cymru, yr asiantaeth datblygu theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru yn dod â'r cwmni theatr *Oui Va La* i a leolir ym Montreal i theatrau yn Llanelli, Ystradgynlais, Harlech, Porthcawl, Llanfair ym Muallt a'r Fenni, a fydd yn cyflwyno'r ddrama ddiflewyn ar dafod hon i'w cymunedau.

Gair mwys yw'r teitl sy'n cyfuno *Celfyddyd y Fugue* JS Bach a'r gair *fugue* sy'n golygu rhedeg i ffwrdd yn Ffrangeg. Mae'r trac sain yn seiliedig drwyddi draw ar gampwaith cerddorol Bach ac mae'n mynd â'r gynulleidfa o roc caled i unawd piano agosatoch gyda dogn o rap yn cael ei luchio i'r pair ar y ffordd.

Mae ***La Fugue*** yn stori fodern i bobl ifainc. Sioe heb eiriau yw hi sy'n defnyddio actorion, cerddoriaeth a delweddau gweledol syfrdanol i gyfleu hanes y peryglon sy'n cael eu hwynebu gan ddau o bobl ifainc sy'n byw ar y strydoedd a pha mor agored maen nhw i'r peryglon hynny.

Yn addas i oedolion a phobl ifainc 12 oed a throsodd, dyma gyfle heb ei ail i brofi drama arloesol sy'n gafael yn y dychymyg ac yn cyffwrdd â'r galon. Yn ddrama sy'n aros yng nghof pawb sy'n ei gweld hi, mae ***La Fugue*** wedi cael clod yn fyd-eang

Dyddiadau'r daith yn dilyn:

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch aYvonne O'Donovan: yvonne@creucymru.co.uk